OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1551 (Cy. 186)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 37, Y Pîl, Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i Gyffordd 39, Y Groes, Castell-nedd Port Talbot (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Gorffennaf 2015* |
| *Yn dod i rym* | *20 Gorffennaf 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain – Abergwaun (yr M4) ("y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Gorffennaf 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 37, Y Pîl, Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i Gyffordd 39, Y Groes, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("w*orks period*") yw cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 20 Gorffennaf 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau o draffordd yr M4 rhwng Cyffordd 37, y Pîl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i Gyffordd 39, y Groes ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Gorffennaf 2015

*R Morgan*

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 37, y Pîl hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 39, y Groes.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38, Margam hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 37, y Pîl.

3. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 37, y Pîl.

4. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 38, Margam.